



ANGLICAN RENEWAL MINISTRIES WALES

ADNEWYDDIAD EGLWYSWYR CYMRU

Annog pobl i fyw mewn perthynas agosach â Duw

CRONFA ARIANNOL ACADEMAIDD

**CANLLAW I RAI SY’N YMGEISIO AM ARIAN
O’R GRONFA**

Mae **Adnewyddiad Eglwyswyr Cymru** wedi agor Cronfa Ariannol er budd myfyrwyr ar gyrsiau wedi'u lleoli mewn eglwysi a sefydliadau sy'n ymroi i adnewyddu ac/neu efengylu Cristnogol carismataidd; neu ynteu'n gweithio fel gwirfoddolwr gyda chorff sy'n gweithredu yn y meysydd hyn.

Mae'n ofynnol bod y cyrsiau hyn yn cydfynd â bwriadau'r Elusen, sef:

Hyrwyddo'r grefydd Gristnogol drwy hybu a chefnogi adnewyddiad ysbrydol oddi mewn i Gymru, yr Eglwys yng Nghymru ac eglwysi eraill y Cymuned Anglicanaidd

Dewis

Defnyddir yr amodau canlynol wrth ddewis ymgeiswyr :

Rhaid cael cyswllt Cymreig, gan fynnu bod yr ymgeisydd o leiaf yn byw yng Nghymru ac yn addoli mewn eglwys Gymreig (nid o reidrwydd Anglicanaidd).

Ni raid i'r ymgeisydd fod yn fyfyrwr ar gwrs penodol — gall ef neu hi fod yn berson ifanc ar flwyddyn saib yn mynd dramor am hyfforddiant, astudiaeth neu brofiad yn ymwneud ag adnewyddiad carismataidd, er enghraifft, gyda chorff megis SOMA.

Ceisiadau

Dylid anfon ceisiadau'n uniongyrchol at yr Ysgrifennydd i gyrraedd erbyn 31 Mai neu 30 Tachwedd. Derbynnir ateb erbyn diwedd y mis canlynol, a bydd yr arian ar gael bryd hynny.

Dylai'r ymgeiswyr ysgrifennu adroddiad byr amdanynt eu hunain yn dweud pam y maent am ddilyn y cwrs a chan ystyried y pwyntiau canlynol:

- cyfle blaenorol mewn addysg a gwasanaeth.
- mynegiad byr o sefyllfa ariannol teuluol yr ymgeisydd.
- disgrifiad o amgylchfyd cymdeithasol yr ymgeisydd ac o'i eglwys/o'i heglwys.
- asesiad o'r modd y mae'r cwrs/ profiad yn berthnasol i adnewyddiad carismataidd ac i'r Eglwys.

Gyda'r cais dylid cynnwys llythyr yn cymeradwyo'r ymgeisydd, o ddewis ond nid o anghenraid, gan ei eglwys/ei heglwys neu ei weinidog/ei gweinidog.

Bydd gwerth y cymorth ariannol yn cymryd i ystyriaeth rif a safon ymgeiswyr cymwys ond ni fydd yn fwy na £500 yr ymgeisydd mewn unrhyw un flwyddyn.

Manylion Cyswllt

Dick Shenton

51 Ewenny Road

Bridgend

Mid Glamorgan

CF31 3HY

Tel: 01656 665368

Email:

dickandkath@btinternet.com